

CYMRAEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Canllawiau ar gategoreiddio
ysgolion yn ôl y ddarpariaeth
cyfrwng Cymraeg**

Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol; cyrff addysg sy'n ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu sydd a diddordeb ynddynt, gan gynnwys ysgolion, consortia rhanbarthol, undebau athrawon, Estyn, sefydliadau dyfarnu, ymarferwyr, cyrff cyhoeddus; ac eraill sydd â diddordeb.

Trosolwg

Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn amlinellu trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol. Defnyddir y categorïau i gasglu gwybodaeth am ddarpariaeth yn genedlaethol a dylai awdurdodau lleol ac ysgolion eu defnyddio i hysbysu rhieni/gofalwyr am y mathau o ysgol a'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol.

Dylai'r trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynorthwyo awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn paratoi ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn ogystal a'n nod cenedlaethol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, fel sydd wedi'i amlinellu yn y strategaeth Cymraeg 2050. Bydd rôl yr awdurdodau lleol mewn perthynas â chefnogi targedau addysg Cymraeg 2050 yn cael eu pennu yn eu cynlluniau statudol unigol, sef eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru



@Cymraeg



Facebook/Cymraeg

Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/y-gymraeg-mewn-addysg

Dogfennau cysylltiedig

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017); *Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2017–20* (2017); *Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cyngori Strategol y Gymraeg Mewn Addysg* (2019); *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (2007); *Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol i ail-ddiffinio ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg* (2020); *Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion* (2021).

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	2
Crynodeb Gweithredol	4
Rhan 1 – Categori ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	
1.1 Cefndir a chyd-destun y polisi	6
1.2 Addysg drochi cyfrwng Cymraeg	6
1.3 Yr angen am categorïau iaith ysgolion	7
1.4 Y gofynion statudol o ran categorïau iaith ysgolion	8
1.5 Y sefyllfa bresennol o ran categorïau ysgolion yng Nghymru	9
Rhan 2 – Cyflwyno'r trefniadau newydd	
2.1 Y prif newidiadau	12
2.2 Y categorïau	14
2.3 Is-gategori Trosiannol	20
2.4 Sut fydd hyn yn gweithio yn ymarferol	20
Rhan 3 – Rhoi'r trefniadau categorïau ysgolion newydd ar waith	
3.1 Beth ddylai ysgolion ac awdurdodau lleol ei gynnwys mewn prosiectysau	22
3.2 Symud o'r trefniadau categorïau presennol i'r trefniadau newydd	22
3.3 Pan na fydd ysgol yn cyfateb yn union â chategori	23
3.4 Pan fydd ysgol yn anghytuno gyda'i chategori	23
3.5 Y disgwyliadau ar ysgolion i newid categorï?	23
3.6 Is-gategori trosiannol	23
3.7 Beth y mae angen i awdurdod lleol ac ysgolion ei wneud i roi'r polisi hwn ar waith	24
3.8 Cynllunio a datblygu'r gweithlu	24
3.9 Symud ymlaen	25

Rhagair gan y Gweinidog



Mae'n bleser mawr gennyf rannu â chi ein canllawiau newydd ar gyfer categorieiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer mawr ohonoch wedi cyfrannu at y gwaith o lunio'r polisi terfynol hwn, felly rwyf am ddechrau drwy ddweud diolch. Mae'n bwysig ein bod wedi cymryd y cam o adolygu'r ffordd y caiff ysgolion eu categorieiddio yn ôl y ddarpariaeth Gymraeg – mae'n un o'r ymrwymadau allweddol a nodir yn strategaeth *Cymraeg 2050*, a bydd hefyd yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru.


Rwy'n falch ein bod wedi cychwyn ar y daith hon. Y cam cyntaf yn unig yw cyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae angen i ni gadw ati a pharhau i ychwanegu at y manylion er mwyn creu seilwaith gyflawni cadarn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried manteision gwneud y categorïau'n statudol yn y dyfodol. Nid wyf yn amau y bydd angen amser, cadernid a hyd yn oed dewrder ar adegau er mwyn rhoi'r polisi hwn ar waith. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd yn hyn o beth.

Mae *Cymraeg 2050* yn cynnig cyfle cyffrous i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n ffordd o edrych ar y broses o greu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae pob un ohonom yn gwybod pa mor bwysig yw rôl y sector addysg o ran cyrraedd ein targed yn *Cymraeg 2050* o sicrhau bod 40% o ddysgwyr yn cael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth gynllunio beth fydd cynnydd 30% yn nifer y dysgwyr sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg dros yn deng mlynedd nesaf yn ei olygu gyda chymorth y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Rwy'n gwybod bod y polisi hwn yn ffactor allweddol i nifer o awdurdodau lleol gyrraedd eu targedau CSCA.

Roedd hi'n glir o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ein bod ar y trywydd iawn. Fodd bynnag, roedd yna feysydd yr oedd gofyn eu cryfhau. Rwy'n ddiolchgar am y sylwadau adeiladol a ddaeth i law yn ystod y broses honno, sydd wedi helpu i lywio'r canllawiau terfynol hyn. Rwy'n gwybod bod COVID-19 wedi creu heriau i'r sector addysg, ond mae hefyd wedi cynnig cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol. Er gwaethaf y blynyddoedd heriol rydym wedi eu profi, mae'n galonogol gweld data sy'n dangos bod mwy o blant oedran dosbarth derbyn yn cael addysg cyfrwng Cymraeg yn 2020/21, gyda chynnydd o ychydig llai nag 1%. I mi, mae hyn yn dangos sector sy'n meithrin hyder, ac a fydd yn parhau i wneud cyfraniad enfawr i'n hamcanion yn *Cymraeg 2050*.

O edrych ar y cyd-destun byd-eang – dwyieithrwydd yw'r norm. Rwy'n falch ein bod ni yng Nghymru yn cefnogi system wirioneddol ddwyieithog sy'n adlewyrchu demograffeg ddwyieithog Cymru a statws swyddogol y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, yn ogystal â'n nod llesiant o sicrhau bod 'y Gymraeg yn ffynnu'.

Rwyf am i bob dysgwr gael y cyfle i fod yn ddinesydd dwyieithog, ond mae hefyd yn bwysig i mi ein bod ni'n creu dysgwyr sy'n defnyddio'r iaith. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb. Rwyf am sicrhau bod pobl nid yn unig yn gallu dod yn siaradwyr Cymraeg ond eu bod hefyd yn teimlo'n hapus i'w defnyddio ym mhob agwedd ar eu bywydau. Dyma fy ngweledigaeth i. Rwy'n hyderus y bydd y polisi hwn yn ein helpu i osod seiliau cadarn er mwyn ei gwireddu.

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a wavy line and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Crynodeb Gweithredol

Mae'n rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru ddweud wrth rieni a Llywodraeth Cymru ym mha iaith y maent yn bwriadu addysgu. Yng Nghymru, gall hyn fod naill drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu'n gyfuniad o'r ddwy iaith. Ers i'r polisi ar gyfer categoreiddio ysgolion fel hyn gael ei gyflwyno gyntaf yn 2007, mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi dilyn ein harweiniad ynghylch sut y dylent categoreiddio eu hysgolion yn ôl faint o'r cwricwlwm a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth gyhoeddi *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg* yn 2017 ac, yn fwy diweddar, y Cwricwlwm i Gymru, amlygwyd yr angen i adolygu ein polisi ynghylch categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Egwyddor bwysig wrth adolygu'r trefniadau hyn oedd sicrhau bod gwybodaeth am y gwahanol fathau o fodolau ysgol sydd i'w gweld yng Nghymru yn cael ei chyflwyno'n gliriach i rieni/gofalwyr. Wrth wneud hynny, byddai rhieni/gofalwyr mewn gwell sefyllfa i wneud penderfyniadau hyderus a gwybodus wrth ddewis llwybr addysg eu plentyn.

Cyhoeddi y canllawiau hyn yw'r cam cyntaf tuag at gyflawni hynny, er y bydd canllawiau pellach a dulliau cyfathrebu wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer rhieni yn parhau i gael eu datblygu wrth i ni weithredu'r newidiadau i'r categorïau.

Ers 2013, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r cynlluniau hyn (a wneir o dan adrannau 84-87 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) yn dangos sut y bydd yr awdurdod lleol yn gwella'r broses o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac yn gwella safonau'r addysg honno a'r broses o addysgu Cymraeg yn ei ardal.

Daeth rheoliadau newydd ar gyfer CSCA i rym yn 2020 er mwyn cefnogi ein huchelgais ar gyfer y Gymraeg, a amlinellir yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yw un o themâu allweddol y strategaeth ac mae gan y sector addysg ran bwysig i'w chwarae. I wneud hynny, mae angen eglurder ynghylch y diffiniadau a ddefnyddir i ddisgrifio faint o ddarpariaeth Gymraeg a gynigir yn ein hysgolion. Mae hyn wedi sbarduno'r angen i adolygu, ymgynghori, ac yn awr, cyhoeddi trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth y Gymraeg.

Mae nifer y categorïau ysgolion yn cael eu gostwng i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Byddai ysgol cyfrwng Saesneg yn ysgol Categori 1, byddai ysgol ddwy iaith yn ysgol Categori 2 a byddai ysgol cyfrwng Cymraeg yn ysgol Categori 3.

Er bod tri chategori'n cael eu cyflwyno ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd, nid yr un meini prawf sy'n cael eu defnyddio i ddiffinio natur eu darpariaeth. Mewn ysgolion cynradd, gellir categoreiddio'r ddarpariaeth ieithyddol a gynigir yn hytrach na'r ysgol fel sefydliad cyfan, sy'n golygu y gallai ysgol gynradd fod yn ysgol categori 1, 2 neu 3, neu gyfuniad o Categori 1 a 2 neu Categori 2 a 3 yn ôl y ddarpariaeth a gynigir (ee os oes 2 ffrwd yn weithredol o fewn yr un ysgol). Yn y sector uwchradd, gellir categoreiddio ysgolion fel sefydliadau cyfan, er ei bod yn

bosibl y bydd angen cynlluniau datblygu penodol ar gyfer ysgolion uwchradd sydd â ffrwd Gymraeg ar hyn o bryd.

Bydd y categorïau eu hunain yn cael eu diffinio yn ôl faint o amser sy'n cael ei neilltuo i ddysgwyr ddysgu Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys yr amser a neilltuir i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â gweithgareddau eraill yn yr ysgol sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio a chyfoethogi eu defnydd o'r Gymraeg.

Gan mai un o fwriadau'r drefn newydd o gategoreiddio yw annog ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg, byddwn hefyd yn cyflwyno dau is-gategori trosiannol yn y sector cynradd a dau yn yr uwchradd, er mwyn hwyluso'r broses i ysgolion symud i'r categori nesaf. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod estynedig o amser.

Un o'r egwyddorion craidd wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol. Wrth leihau nifer y categorïau, mae opsiwn i ysgolion ymestyn eu darpariaeth Gymraeg o fewn y categori hwnnw. Byddai unrhyw newid (gostyngiad neu gynydd) yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn golygu 'newid a reoleiddir' fel y nodir o dan adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, ac yn sbarduno proses ymgynghori fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Mae datblygu mwy o siaradwyr Cymraeg sy'n hyderus yn eu gallu i ddefnyddio eu haith mewn gymaint o gyd-destunau â phosibl yn rhan annatod o Cymraeg 2050. Dyma pam, wrth ddiffinio categori iaith ysgol, ein bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar gyfleoedd i ddefnyddio a mwynhau'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae ein polisi ar gyfer categorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan o ddiwygiadau addysg ehangach. Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol o 2022, ac mae angen inni sicrhau cysondeb ar draws pob maes polisi. Rydym wedi datblygu'r categorïau hyn yn unol â'r angen hwn.

Rhan 1 – Categoriadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

1.1 Cefndir a chyd-destun y polisi

Mae *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg. Rydym am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o 562,000 yn 2011 i filiwn erbyn 2050. Rydym hefyd am sicrhau ein bod yn cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol ac yn y gweithle.

Mae'r system addysg yn allweddol i wireddu'r weledigaeth hon. Yn Cymraeg 2050, rydym yn pwysleisio mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, a'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae angen i ni hefyd gynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus. Un flaenoriaeth benodol yw sicrhau bod ysgolion dwyieithog yn cyflwyno cyfran uwch o'r cwricwlwm yn Gymraeg er mwyn rhoi sylfaen ieithyddol gadarn i ddysgwyr. Mae angen i ni weld ethos Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd ar fywyd yr ysgol a mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mae gan y Cwricwlwm i Gymru ffocws o'r newydd ar ddysgu sydd wedi'i deilwra ar gyfer cryfderau ein dysgwyr. Mae'n cynnig hyblygrwydd i ysgolion i benderfynu ar y dull gorau o sicrhau bod eu dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn elfen orfodol o'r Cwricwlwm. Mae disgwyliad ar bob ysgol a lleoliad i addysgu'r Gymraeg i ddysgwyr o 3 oed ymlaen. Mae'r maes dysgu a phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu o fewn y Cwricwlwm i Gymru wedi ei seilio ar gontinwmm neu fframwaith cynnydd ar gyfer ieithoedd, yn dechrau gyda dim neu ychydig iawn o iaith ac yn gweithio tuag at hyfedredd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr sydd â hyd yn oed ychydig o sgiliau Cymraeg i ddatblygu ac adeiladu ar y sgiliau hynny a chodi eu hyder yn ystod cyfnod eu haddysg statudol a'u gyrfaedd ôl-addysg statudol.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu gydag athrawon a phartneriaid eraill, fframwaith iaith Gymraeg i gefnogi addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Gyda deunyddiau ategol a dysgu proffesiynol, bydd y fframwaith hwn yn cefnogi dysgu ac addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd yn destun ymgynghoriad yn ystod 2022 yn barod i'w weithredu erbyn mis Medi 2022.

1.2 Addysg drochi cyfrwng Cymraeg

Mae ysgolion sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Daw dysgwyr yn yr ysgolion hyn o amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol – rhai o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ac eraill lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn mynd drwy broses drochi. Addysgir yr holl ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn yr un ystafell ddosbarth, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg gartref ai peidio.

Gellir dod o hyd i enghreifftiau o ysgolion sy'n ymarfer trochi ledled y byd. Mae model Canada ar gyfer trochi wedi'i ddogfennu'n eang, felly hefyd y model a ddefnyddir yng Ngwlad y Basg. Mae'n dangos bod angen addysgu dysgwyr yn bennaf drwy gyfrwng y iaith darged (gyda defnydd achlysurol o iaith y cartref) am ddwy i dair blynedd er mwyn datblygu cymhwysedd iaith yn ddigonol. Yna, fe gyflwynir iaith arall.

Dyma'r model yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru. Mae'n golygu bod dysgwyr sy'n cael eu trochi yn cael eu haddysgu yn Gymraeg yn unig hyd at a chan gynnwys y flwyddyn ysgol y mae mwyafrif y dysgwyr yn troi'n 7 oed. Ar ôl hynny, rydym yn cyflwyno Saesneg fel pwnc, ac i wahanol raddau fel cyfrwng addysgu er mai Cymraeg yw prif iaith yr ystafell ddosbarth o hyd.

Mewn ardaloedd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg a lle mae'r gymuned yn aml yn Gymraeg eu hiaith, bydd mwy o gyfleoedd i drochi dysgwyr yn y Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac ni fyddant yn dibynnu ar yr ysgol yn unig i gaffael yr iaith. Mewn ardaloedd eraill lle y gwelir yn aml mai'r ysgol yw'r unig le ar gyfer trochi yn y Gymraeg, mae'n hollbwysig achub ar bob cyfle i sicrhau y caiff dysgwyr gynifer â phosibl o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny mewn cynifer â phosibl o gyd-destunau yn ystod y diwrnod ysgol, er mwyn sicrhau y bydd y trochi'n digwydd yn llwyddiannus. Er gwaethaf y gwahanol gyd-destunau, mae'r canlyniad i ddysgwyr yn debyg. Mae'r ddau ddull yn creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau i ddatblygu eu dysgu, eu hyfforddiant neu eu gyrfaoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rhai ardaloedd sydd â chanran is o siaradwyr Cymraeg wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn twf addysg cyfrwng Cymraeg. Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull o hyd ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.

1.3 Yr angen am gategoriâu iaith ysgolion

Mae darpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac oddi mewn iddynt. Er bod y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael ei defnyddio fel cyfrwng addysgu'r holl bynciau craidd, neu'r rhan fwyaf ohonynt, mae rhai ysgolion eraill yn defnyddio cymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg i raddau mwy neu lai, neu'n cynnig ffrydiau cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg ar wahân. Yn aml, mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y mae awdurdodau lleol unigol wedi penderfynu ymateb i'r nod o sicrhau bod dysgwyr sy'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog yn dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ogystal â natur ieithyddol yr ardal dan sylw.

Cyflwynwyd categorïau iaith ysgolion am y tro cyntaf yn 2007 mewn ymgais i roi darlun cyflawn o'r ffordd yr oedd addysg drochi cyfrwng Cymraeg yn cael ei rhoi ar waith, yn ogystal â sicrhau cysondeb drwy grwpio ysgolion a oedd yn defnyddio dulliau trochi tebyg. Cafodd y rhain eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn y canllawiau anstatudol, *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*¹, ac roeddent yn cynnwys nifer o gategoriâu – pum categori yn y sector cynradd a phedwar yn y sector uwchradd (gan gynnwys pedwar is-grŵp).

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/diffinio-ysgolion-yn-%C3%B4l-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf>

Yn ymarferol, nid yw'r categorïau wedi cael eu defnyddio ochr yn ochr a'r canllawiau bob amser. Maent yn aml yn cael eu camddehongli. Gall hyn achosi dryswch yn aml i rieni/gofalwyr a gall olygu bod darpariaeth yr ysgol yn cael ei chyfathrebu'n anghywir ym mhrosbectysau/deunyddiau hyrwyddo'r ysgol. Hefyd, ni fu unrhyw broses fonitro ffurfiol i sicrhau bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigwyd gan ysgolion yn adlewyrchu'r meini prawf yn y categorïau a'r canllawiau.

Nid yw'r amwysedd ynghylch categorïau ysgolion bellach yn cefnogi'r ymrwymïadau a wnaed yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) awdurdodau lleol. Erbyn hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol nodi yn eu cynlluniau strategol sut y byddant yn cynyddu faint o Gymraeg a gyflwynir yn eu hysgolion erbyn diwedd cyfnod adrodd y cynllun. Bydd egluro'r trefniadau yn hwyluso'r broses hon.

Mae eglurder ynghylch cyfrwng iaith ysgolion hefyd yn bwysig wrth i ni gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Am y tro cyntaf, bydd gan y Cwricwlwm gontinwmm clir o gynnydd a disgwyliadau o ran caffael y Gymraeg ar draws pob lleoliad ysgol. Bydd cynllun gweithredu'r cwricwlwm a'r rhwydwaith cenedlaethol newydd o weithwyr addysgu proffesiynol yn helpu i gefnogi cynnydd yn y Gymraeg a chyflawni continwmm iaith Gymraeg.

Er mai ysgolion unigol sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm, dylid ei ystyried o fewn y polisi cyffredinol o gategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau bod categorïau ysgolion yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr awdurdod lleol i gynyddu swm y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'i CSCA.

Rydym wedi gweithio i sicrhau cysondeb strategol rhwng y categorïau a'r Disgrifiadau Dysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu y Cwricwlwm newydd i Gymru².

1.4 Y gofynion statudol o ran categorïau iaith ysgolion

Mae deddfwriaeth yn gosod dyletswyddau a gofynion i ysgolion ac awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am y cyfrwng iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae *Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011*³ yn nodi'r wybodaeth y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ei chyhoeddi ym mhrosbectysau ysgolion unigol a phrosbectws cyfansawdd yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol at ddibenion CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion)⁴. Mae Atodlen 2 i'r rheoliadau yn nodi'r wybodaeth gyffredinol i'w chyhoeddi gan awdurdodau lleol ym mhrosbectws yr ysgol, gan gynnwys y categorïau iaith a ddefnyddiwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol yn y datganiad CYBLD diweddaraf sy'n disgrifio'r ysgol orau. Bydd CYBLD yn cael ei newid i adlewyrchu'r categorïau newydd. Ond nes iddynt gael eu newid, bydd rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion, wrth gyhoeddi ei prosbectws ysgol neu sirol, gyfeirio at y categorïau sydd wedi'u cynnwys yn CYBLD ar yr adeg cyhoeddi. Fodd bynnag,

² [The School Information \(Wales\) Regulations 2011 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

³ Mae'r categorïau wedi'u cynllunio ar sail pryd y caiff y Cwricwlwm ei gyflwyno'n llawn. Tan hynny, at ddibenion y canllawiau hyn dylai ysgolion ddisodli elfennau'r cwricwlwm presennol ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad lle bo angen

⁴ Mae CYBLD yn gasgliad data electronig o ddata ar lefel disgybl ac ysgol a ddarperir pob mis Ionawr gan bob ysgol gynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig a gynhelir.

byddem yn annog awdurdodau lleol ac ysgolion i ddefnyddio'r categorïau newydd ochr yn ochr â'r hen rai hyd nes i'r newidiadau i CYBLD gael eu gwneud.

Mae rheoliadau a wneir o dan *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ("Deddf 2013")⁵, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("CSCA"). Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg (Cymru) 2019 yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn CSCA awdurdod lleol gan gynnwys y gofyniad i '*osod targed sy'n amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn ystod oes y Cynllun yng nghyfanswm yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ei ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg*'. Mae hwn yn ofyniad statudol lle mae'n rhaid i'r awdurdod arwain yn strategol.

Mae Adran 42 o Ddeddf 2013 yn nodi y caiff awdurdod lleol neu gorff llywodraethu wneud cynigion i wneud newid a reoleiddir i ysgol. Mae Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn disgrifio newidiadau a reoleiddir mewn perthynas ag ysgolion. Mae hyn yn cynnwys newid i gyfrwng iaith yr ysgol sy'n dod o fewn tablau 1 o baragraff 7 neu dabl 2 o baragraff 8 o'r Atodlen.

Mae unrhyw newidiadau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â gofynion a osodir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a wnaed o dan Adrannau 38 o Ddeddf 2013.

Pan fydd awdurdod lleol ac ysgol yn ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion, dylid ystyried sut y bydd y cynigion yn cefnogi targedau CSCA y sir, gan gynnwys sut y gallai'r cynnig ehangu neu leihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Pe byddai'r cynigion yr ymgynghorir arnynt yn lleihau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, rhaid nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r cynnig⁶. Mae penderfyniadau lleol i newid categorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu gyrru gan yr angen i fodloni'r gofynion statudol a nodir yn y rheoliadau CSCA – awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith cychwynnol o weithredu'r trefniadau hyn.

1.5 Y sefyllfa bresennol o ran categorïau ysgolion yng Nghymru

Ers 2007, mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'u categoreiddio gan ddefnyddio ein canllawiau anstatudol '*Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*'. O 2022, rydym am i ysgolion ac awdurdodau lleol fabwysiadu'r categorïau newydd, er y bydd symud o un system i'r llall yn cymryd amser ac y bydd gofyn gwneud hyn fesul cam.

⁵ [School Standards and Organisation \(Wales\) Act 2013 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/cod-trefniadaeth-ysgolion-fersiwn-diwygiedig.pdf>

Isod, ceir y categorïau yn ôl canllawiau anstatudol 2007. Caiff y rhain eu disodli gan y categorïau newydd a gyflwynir yn rhan 2 o'r canllaw hwn:

Ysgolion cynradd

Mae **ysgolion cynradd** yn perthyn i un o'r pum categori isod:

Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chaiff o leiaf 70% o gwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgolion dwy ffrwd

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn bodoli fwy neu lai ochr yn ochr â'i gilydd.

Ysgolion trosiannol: Ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda defnydd sylweddol o'r Saesneg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddir y ddwy iaith i addysgu Cyfnod Allweddol 2, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg, fel ei bod yn cael ei defnyddio i addysgu dros 50%, a hyd at 70%, o'r cwricwlwm.

Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 eu haddysgu yn y ddwy iaith, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Defnyddir y Gymraeg i addysgu rhwng 20% a 50% o'r cwricwlwm yn gyffredinol.

Ysgolion cyfrwng Saesneg

Caiff disgyblion y cyfnod sylfaen eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Saesneg yw prif gyfrwng yr addysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, ond caiff Cymraeg ei haddysgu fel ail iaith, ac efallai y caiff rhai agweddau ar rai pynciau eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgolion uwchradd

Mae **ysgolion uwchradd** yn perthyn i un o'r pedwar grŵp isod.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Caiff pob pwnc, ar wahân i Saesneg, ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgolion dwyieithog

Mae'r categori hwn yn cynnwys pedwar is-gategori, yn dibynnu ar ganran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, a p'un a yw'r un ddarpariaeth yn cael ei chynnig drwy gyfrwng y Saesneg ai peidio.

- **Math A:** Caiff o leiaf 80% o'r pynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Efallai y caiff un neu ddau o bynciau eu haddysgu i rai disgyblion drwy gyfrwng y Saesneg neu'r ddwy iaith.

- **Math B:** Caiff o leiaf 80% o'r pynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cânt eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
- **Math C:** Caiff 50-79% o'r pynciau (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond cânt eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
- **Math D:** Caiff pob pwnc (ar wahân i Saesneg a Chymraeg) ei addysgu i'r disgyblion gan ddefnyddio'r ddwy iaith.

Ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg

Defnyddir y ddwy iaith i addysgu'r pynciau, gyda 20-49% o'r pynciau'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, caiff pob pwnc fel arfer ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

Ysgolion cyfrwng Saesneg

Caiff y disgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, a chaiff Cymraeg ei haddysgu fel ail iaith hyd at Gyfnod Allweddol 4.

Rhan 2: Cyflwyno'r trefniadau newydd

2.1 Y prif newidiadau

Yr egwyddor o beidio a symud yn ôl

Un o'r egwyddorion craidd wrth gyflwyno'r trefniadau newydd yw na ddylai ysgolion gynnig llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol nag a wnaed yn y gorffennol. Rydym am sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o gyfleoedd â phosibl i ddefnyddio eu Cymraeg mewn cymaint o gyd-destunau gwahanol â phosibl yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd hyn yn golygu ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i'n dysgwyr ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus, sy'n gallu defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar fywyd.

Nifer y categorïau

Rydym wedi lleihau nifer y categorïau ar draws y cynradd ac uwchradd i chwech. Tri yn y cynradd a thri yn yr uwchradd. Gelwir y categorïau cynradd ac uwchradd yr un fath – Categori 1 Cyfrwng Saesneg, Categori 2 Dwy iaith a Chategori 3 Cyfrwng Cymraeg⁷. Er bod yr un nifer o gategoriâu'n bodoli ar gyfer y ddwy sector, nid ydynt yn cyfateb yn llwyr i'w gilydd oherwydd bod strwythur trefnu'r ddarpariaeth addysgol a phatrymau dilyniant rhywfaint yn wahanol yn y ddwy. Fodd bynnag, dylai cael tri chategori sydd wedi'u diffinio'n fras mewn ffordd debyg ei gwneud yn haws i esbonio'r ddarpariaeth i rieni/gofalwyr er mwyn iddynt allu ystyried pa lwybr addysg y byddent yn dymuno ei ddilyn ar gyfer eu plentyn. Mae hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y dadansoddiad o ddata CYBLD a wnaed fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau categorïau presennol sy'n awgrymu bod ysgolion Cymru'n fras yn disgyn i dri grŵp.

Bydd ysgolion sydd wedi ymrwmo i symud i gategori arall yn cael eu nodi fel ysgolion trosiannol, gyda'r categori y mae'r ysgol ar daith i symud iddo yn cael ei nodi yn CYBLD, er enghraifft T2 neu T3.

Gwahaniaethau i'r categorïau ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd

Cynradd

Yn y sector cynradd, rydym yn bwriadu addasu CYBLD fel bod ysgolion yn gallu nodi eu hunain mewn mwy nag un categori. Mae hyn fwyaf perthnasol i'r ysgolion cynradd sydd wedi'u categorio fel dwy ffrwd gyda ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg. Bydd y gallu i gategoreiddio darpariaeth ysgol mewn categorïau ar wahân yn golygu y gellir cydnabod modelau ysgol newydd, er enghraifft ysgolion gyda ffrydiau categori 2 a 3. Dylai ysgolion cynradd sy'n nodi eu darpariaeth mewn dau gategori ar wahân fel y cyfeirir ato uchod, amlinellu'n glir i'r rhieni union natur y ddarpariaeth a'r deilliannau ieithyddol disgwylidig ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y gwahanol ffrydiau.

Gall ysgolion cynradd sy'n dymuno cynyddu eu darpariaeth yn raddol hefyd gategoreiddio ffrydiau neu ddsbarthiadau o fewn ysgol i adlewyrchu hyn. Er enghraifft, gellid gwneud hyn drwy gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg hyd at

⁷ Yn y sector uwchradd, ceir categori 3P hefyd sy'n cydnabod ysgol sy'n darparu o leiaf 90% ohono yn weithgareddau ysgol (cwricwlaid yn ogystal ag amser allgyrsiol) yn Gymraeg.

oed 7 (gan ddefnyddio'r Gymraeg fel prif iaith yr addysgu) i ddechrau, gyda phob grŵp blwyddyn yn dilyn eu hesiampl o flwyddyn i flwyddyn nes bod yr ysgol gyfan yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Byddai angen ymgynghori ar unrhyw newid o'r fath o dan God Trefniadaeth yr Ysgol.

Uwchradd

Gwelir bod dilyniant ieithyddol (o ran dilyn cyfanswm y cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg) yn mynd yn fwy heriol wrth i ddysgwyr drosglwyddo i'r sector uwchradd, a bod hynny'n cynyddu wrth i'r dysgwyr symud ymlaen drwy'r blynyddoedd. O ganlyniad, wrth gategoreiddio ysgolion uwchradd, cynigir y dylid defnyddio'r ddau faen prawf canlynol i gefnogi ysgolion a chyrrff llywodraethu i gynyddu lefelau dilyniant. Gyda hyn mewn golwg, dylai modelau Categori 2 a 3 gael eu diffinio yn ôl model mewnbwn ac allbwn, sef:

- **Mewnbwn:** Canran y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r gweithgareddau allgyrsiol a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- **Allbwn:** Canran y disgyblion sy'n dilyn y Meysydd Dysgu a Phrofiad hynny drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed.

Model Categori 3 Uwchradd

Mae Categori 3 yn yr uwchradd wedi'i rannu'n ddwy ran.

Mae'r rhan gyntaf yn nodi ysgolion sy'n darparu **ystod eang** o brofiadau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r ail yn nodi ysgolion sy'n darparu'r **holl** brofiadau dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y ddau fodel yn dal i gael eu categoreiddio fel cyfrwng Cymraeg Categori 3 gan fod y rhan fwyaf o'r dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae dysgwyr yr un mor debygol o adael yr ysgol fel siaradwyr dwyieithog Cymraeg a Saesneg. Byddem yn disgwyl i unrhyw ysgol Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal tra'n gweithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.


Sut mae'r categorïau'n cael eu diffinio

Hyd yma, roedd y diffiniad o gategori ysgol yn seiliedig ar ganran y cwricwlwm a oedd yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgol. Credwn mai dim ond rhan o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gall ysgolion a lleoliadau ei chynnig a amlygir fel hyn. Mae gweithgareddau di-rif yn digwydd mewn ysgolion, ar draws yr awdurdodau lleol ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cwricwlwm ond sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i drochi dysgwyr yn y Gymraeg cymaint â phosibl ar draws pob ysgol a lleoliad. Mae llawer o'r cyfleoedd trochi hyn mewn gwasanaethau, mewn sesiynau cofrestru, yn ystod amser cinio neu mewn clybiau ar ôl ysgol yn rhan o gynllun gweithredu Siarter Iaith neu Cymraeg Campus ysgol, ond nid ydynt yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu, yn ein barn ni, am eu cyfraniad pwysig i gaffael iaith. Gwyddom fod pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn gweithredu'r Siarter Iaith a bod tua 60% o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn gweithredu Cymraeg Campus.

Dyma pam y bydd categorïau ysgolion bellach yn cael eu diffinio gan swm y cwricwlwm a gynigir yn Gymraeg yn ogystal â'r gweithgareddau nad ydynt yn gwricwlaidd a ddarperir.

2.2 Y Categorïau

Categorïau Ysgolion Cynradd



Categoriâu Ysgolion – Y Sector Cynradd


Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg

Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.

O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

Categoriâu Ysgolion Uwchradd



Categorïau Ysgolion – Y Sector Uwchradd

Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg

Mae ysgolion yn y categori hwn wedi'u rhannu'n ddwy ran: Categori 3 Cyfrwng Cymraeg a Chategori 3P Cyfrwng Cymraeg penodedig.

Ar gyfer pob ysgol yn y categori hwn, y Gymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol. Bydd yr ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen.

Mae'r rhain yn ysgolion sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'i oedran a'i allu.

Bydd ysgol **Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg** yn cynnig ystod eang o'u Meysydd Dysgu a Phrofiad drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd o leiaf 60% o ddysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.


Bydd disgwyl i bob ysgol Categori 3 barhau i adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ardal tra'n gweithio tuag at gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser.

Bydd ysgol **Categori 3P – Ysgol Cyfrwng Cymraeg Penodedig** yn cyflwyno pob Maes Dysgu a Phrofiad (Maes) drwy gyfrwng y Gymraeg.


Bydd 100% o ddysgwyr ymgymryd ag o leiaf 90% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

Sut gall ysgolion drosglwyddo i'r categorïau newydd

Sector Cynradd



Sector Uwchradd



*Gweler tudalen 10 am fathau ysgolion dwyieithog

2.3 Is-gategoriâu Trosiannol

Er mwyn helpu i annog cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, rydym wedi cynnwys yr hyn rydym yn ei alw'n 'is-gategoriâu trosiannol' fel categorïau pontio. Byddai'r trefniadau pontio hyn yn galluogi ysgolion i gynllunio sut y byddant yn cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser. Pwysleisiwn yma mai cynyddu'r ddarpariaeth o'r Gymraeg, a hynny er mwyn symud i'r categori nesaf, yw nod yr is-gategoriâu trosiannol.

Ni ddylai categorïau trosiannol fod yn barhaol. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol gytuno ar gynlluniau i gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac ymgorffori hyn yn eu CSCA. Disgwylir i awdurdodau lleol gynllunio'n ddwys yn ystod pum mlynedd cyntaf eu Cynllun. Yn yr un modd, disgwylir i benderfyniadau fydd yn symud ysgol ar hyd y continwmm gael eu gwneud yn ystod y pum mlynedd cyntaf. Ni ddylai unrhyw gategori trosiannol bara mwy na 10 mlynedd.

Gall ysgol drosglwyddo yn syth i'r is-gategori trosiannol os yw'r ysgol a'r awdurdod lleol wedi adnabod potensial i'r ysgol symud i gategori arall. Bydd angen sicrhau bod cynllun yn cael ei gytuno rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgol i baratoi at gynnydd yn eu darpariaeth o'r Gymraeg. Dylai unrhyw ysgol sydd mewn is-gategori trosiannol nodi hynny yn eu prosiectws ysgol. Hefyd o ran awdurdodau lleol, rhaid amlinellu hynny yn eu prosiectws cyfansawdd sirol. Pan fydd y cynllunio ar y cyd rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol yn gweld potensial ac awydd i symud yr ysgol i gategori 2 neu 3, dylid dechrau ar y broses o ymgynghori ar y newid a reoleiddir, fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

2.4 Sut fydd hyn yn gweithio yn ymarferol

Categoriâu cynradd ac uwchradd⁸

Bydd nifer y categorïau ar gyfer y sector cynradd a'r sector uwchradd yr un peth, sef tri categori a thri is-gategori trosiannol ym mhob sector. Bydd hyn yn cynnig yr un cyfle i ysgolion yn y ddau sector newid o un categori i'r llall drwy'r is-gategori trosiannol. Fodd bynnag, bydd y disgrifiadau sy'n diffinio pob categori yn amrywio er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaethau yn nyluniad y cwricwlwm a'r broses o'i gyflwyno yn y sector cynradd a'r sector uwchradd.

Bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn perthyn i gategori 1 cyfrwng Saesneg neu gategori 3 cyfrwng Cymraeg. Bydd eraill, sydd wedi'u gategoreiddio ar hyn o bryd yn ysgolion dwyieithog: 2A, 2B, 2C, 2D, neu Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg neu Cymraeg â defnydd sylweddol o'r Saesneg, yn cael eu rhoi yng nghategori 2 neu o bosib yn un o'r is-gategoriâu trosiannol. Efallai y bydd angen i nifer bach o ysgolion gael eu gategoreiddio o'r newydd.

⁸ Mae ysgolion canol yn ddarostyngedig i drefniadau gategoreiddio darpariaeth. Felly, os bydd amrywiad yn y categori rhwng y cynradd ac uwchradd, caiff hyn ei gofnodi mewn systemau gwybodaeth reoli a'i adrodd mewn data CYBLD os oes angen pan fydd systemau wedi'u diweddarau gyda threfniadau'r categorïau newydd

Dysgwyr sy'n symud o'r cynradd i'r uwchradd

Bydd y mwyafrif o ddysgwyr, yn ddibynnol ar brosesau mynediad lleol, yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd sy'n perthyn i'r un categori. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd y gall dysgwr sydd wedi mynychu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg drosglwyddo i ysgol uwchradd categori 2 neu categori 3. Cynigir darpariaeth drochi hwyr mewn sawl ardal i helpu dysgwyr sy'n dymuno cael mynediad at hyn. Dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff yr opsiynau sydd ar gael yn lleol i wneud hyn gael eu hamlinellu'n glir yn eu Prosbectysau Cyfansawdd.

Yn ogystal, mewn ysgolion lle mae darpariaeth ddwyieithog yn cael ei chynnig mewn ysgol dwy ffrwd gyda'r ffrwd arall yn ffrwd cyfrwng Cymraeg, gellid rhoi dewis i'r dysgwyr i drosglwyddo i'r ffrwd cyfrwng Cymraeg os ydynt yn dymuno derbyn eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trefniadau monitro

Dylai ysgolion y nodwyd bod ganddynt y potensial i gynyddu eu darpariaeth o'r Gymraeg gan yr awdurdod lleol a chorff llywodraethol drafod a chytuno ar gynllun i weithredu. Dylai unrhyw dargedau sy'n seiliedig ar gerrig milltir y cytunwyd arnynt gyd-fynd â fframwaith newydd Llywodraeth Cymru ar werthuso a gwella a dylid eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu yr Ysgol.

Mae adolygiad o drefniadau gwerthuso a gwella ysgolion wedi bod ar waith er mwyn paratoi at gyflwyniad graddol Cwricwlwm i Gymru. Bydd *Canllawiau Gwella Ysgolion diwygiedig Llywodraeth Cymru: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*, yn nodi'r hyn y dylai ysgol ei gynnwys yn ei Chynllun Datblygu Ysgol. Yn unol â'r egwyddorion, dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth o fewn ysgolion sy'n cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir i ddysgwyr, i gefnogi cynnydd ar hyd y continwmm iaith Gymraeg. Mae hyn hefyd yn unol â'r gofynion statudol a nodir yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion hefyd gytuno pa gymorth sydd ei angen er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Defnyddir cynlluniau datblygu ysgolion unigol gan Estyn i ddarparu cyd-destun cyn ymweliadau arolygu a monitro. Bydd sicrhau bod cynlluniau ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol yn golygu y gellir nodi ac ystyried cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'i datblygiad yn gywir fel rhan o brosesau monitro Estyn. Bydd hyn yn dod yn fwy perthnasol fyth wrth i Estyn geisio rhoi mwy o sylw i asesu'r ystod lawn o brofiadau sydd ar gael i ddysgwyr yn y Gymraeg fel rhan o'i fframwaith asesu.

Rhan 3: Rhoi'r trefniadau categoreiddio ysgolion newydd ar waith

3.1 Beth ddylai ysgolion ac awdurdodau lleol ei gynnwys mewn prosbectysau

Dylai prosbectysau ysgolion unigol gynnwys y categorïau newydd (yn ogystal â chategorïau CYBLD, os yn wahanol) a sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn glir ac yn hawdd i rieni/gofalwyr ei deall.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i brosbectysau ysgolion a phrosbectysau cyfansawdd awdurdodau lleol gyfeirio at categorïau CYBLD yn eu hardal fel yr amlinellir yn Rhan 1 o'r canllaw uchod. Bydd symud i'r trefniadau newydd yn golygu, am gyfnod, na fydd y categorïau newydd a nodir yn y canllawiau hyn a'r codau categori a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn systemau gwybodaeth rheoli ysgolion ac awdurdodau lleol ac a adroddir yn CYBLD, yn cyfateb.

Wrth i waith barhau i sicrhau bod systemau yn adlewyrchu'r categorïau newydd, nid oes rheswm pam na ddylai ysgolion fwrw ymlaen â defnyddio'r categorïau yn y canllaw hwn, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n ofynnol drwy'r Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion. Fel hyn, gall y gwaith o fynd ati i gyfathrebu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yr ysgol yn well ddechrau'n ddi-oed. Byddwn yn cyhoeddi arweiniad technegol pellach ynglŷn â beth fydd angen i ysgolion ei wneud pan ddaw codau categori newydd yn y CYBLD yn weithredol.

Rydym wedi paratoi taflen wybodaeth i rieni/gofalwyr er mwyn i'r trefniadau newydd fod yn glir ac yn hawdd eu deall.⁹

3.2 Symud o'r trefniadau categoreiddio presennol i'r trefniadau newydd

Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i gynnal ymarferiad mapio cychwynnol i osod ysgolion yn y categorïau newydd. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â chyrrff llywodraethu ysgolion. Nid oes angen ymgynghori pan fo cysylltiad clir rhwng y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir o fewn y categorïau presennol a'r categorïau newydd. Anogir awdurdodau lleol i drafod y broses gydag ysgolion unigol.

Gellir dechrau cyflwyno'r trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion o fis Medi 2022. Bydd angen gwneud hyn fesul cam. Y cam cyntaf fydd i'r awdurdod lleol fapio a dod i gytundeb gyda'r ysgolion ar ba gategory sydd orau ar gyfer eu hysgolion. Yr ail gam fydd i gyrrff llywodraethu ysgolion gynnwys categori newydd yr ysgol yn eu prosbectws. Y trydydd cam fydd i ysgolion gofnodi eu categori(au) newydd yn eu system gwybodaeth reoli a'i adrodd yn y ffurflen casglu data CYBLD unwaith y bydd systemau CYBLD wedi'u diwygio i adlewyrchu'r categorïau newydd (mae hyn yn debygol o fod yn ystod 2023).

⁹ <https://llyw.cymru/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg-gwybodaeth-i-rieni-gofalwyr>

Byddwn yn cyhoeddi arweiniad technegol pellach ynglŷn â beth fydd angen i ysgolion ei wneud pan ddaw codau categori newydd yn y CYBLD yn weithredol.

3.3 Pan na fydd ysgol yn cyfateb yn union â chategori

Cadarnhaodd dadansoddiad manwl o ddata CYBLD 2018, a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau presennol, y byddai'r 1261 o ysgolion cynradd ac 194 o ysgolion uwchradd, sef mwyafrif llethol yr ysgolion yng Nghymru, yn cyfateb yn daclus i un neu fwy o'r categorïau newydd hyn. Fodd bynnag, os na fydd ysgol yn cyfateb yn union i un o'r tri chategori yn y lle cyntaf, gall awdurdodau lleol bennu categori dros dro ar ei chyfer neu gynnig ei gosod mewn is-grwp trosiannol. Dylai hyn fod yn seiliedig ar feini prawf a deilliannau penodol a nodir o fewn y categorïau. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, wrth bennu categori newydd ar gyfer ysgol, os bydd yr ysgol honno wedi'i phennu'n categori 2 ar hyn o bryd ond yn agos iawn at gyflawni categori 3, gall yr awdurdod lleol a'r ysgol gytuno ar gynllun byrdymor i'r ysgol symud i'r categori nesaf.

3.4 Pan fydd ysgol yn anghytuno gyda'i chategori

Byddai angen i ysgol ddangos tystiolaeth i'r awdurdod lleol er mwyn egluro pam nad yw bellach yn cyfateb â'r categori.

3.5 Y disgwyliadau ar ysgolion i newid categori

Rydym yn disgwyl i bob ysgol, ni waeth beth ei chategori, ddatblygu ei darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y pwyslais newydd ar greu ethos Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth o fewn disgrifiad pob categori yn cynnig cyfle i bob ysgol gynyddu ei darpariaeth. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i ysgolion symud rhwng categorïau. Os oes awydd symud categori, gall y canllaw hwn fod yn gerbyd i helpu ysgolion i gyrraedd nodau eu cwricwlwm yng nghyd-destun darpariaeth o'r Gymraeg, p'un ai drwy symud i gategori newydd neu gynyddu darpariaeth o fewn eu categori presennol.

3.6 Is-gategoriâu trosiannol

Fel rhan o'r broses o symud i gategori trosiannol, bydd disgwyl i gorff llywodraethu'r ysgol gytuno ar gynllun gyda'r awdurdod lleol. Pan fydd ymgynghoriad ar newidiadau i gyfanswm y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei gwblhau, byddem yn disgwyl i gynllun trosiannol ddod yn rhan o Gynllun Datblygu'r ysgol a bydd hefyd yn elfen allweddol o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Diben y cyfnodau trosiannol hyn yw:

- Cynnig cymorth ymarferol i ysgolion ac awdurdodau lleol sydd am gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Cynllunio a chytuno ar gyfnod pontio addas sy'n rhoi amserlen benodol i ysgolion, gyda'r hyblygrwydd i ymateb i'r cyfleoedd y bydd y newid categori yn eu cynnig iddynt.
- Cynnig cyfle i ysgolion ddatblygu'r cwricwlwm a'r gweithlu fel y gallant ymateb yn llawn i ofynion ieithyddol ac addysgeg y categori newydd.

- Gweithio gyda rhieni/gofalwyr i sicrhau eu bod yn deall ac yn cefnogi'r datblygiadau.
- Caniatáu i'r newid ddigwydd yn raddol, gan sicrhau digon o gyfleoedd i gefnogi gwaith dysgwyr ac athrawon wrth i'r ddarpariaeth gynyddu.
- Cynllunio a gweithredu proses fonitro a gwerthuso effeithiol a fydd yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael chwarae teg o ran y gefnogaeth a ddarperir yn ystod y cyfnod hwn o newid.

3.7 Beth y mae angen i awdurdodau lleol ac ysgolion ei wneud i roi'r polisi hwn ar waith

Efallai bod rhai ysgolion eisoes ar y daith tuag at y categori nesaf. I ysgolion eraill, efallai mai'r canllawiau hyn fydd y cam cyntaf wrth gynnal trafodaethau rhwng yr awdurdodau lleol ac ysgolion.

Bydd awdurdodau lleol yn llywio'r broses hon fel rhan o'u dyletswyddau statudol o dan y CSCA. Mae angen i nifer o amodau fod yn eu lle er mwyn i ysgolion ymgymryd â'r broses hon yn llwyddiannus, a bydd awdurdodau lleol eisoes yn ymwybodol o sefyllfa bresennol ysgolion o ran sicrhau bod yr amodau angenrheidiol ar waith. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cynllun 10 mlynedd ar gyfer gweithlu addysg ysgolion. Bydd y cyfnod 10 mlynedd hwn yn cyd-fynd â'r cyfnod o 10 mlynedd ar gyfer y CSCA. Bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael â chynyddu nifer yr athrawon Cymraeg a'r athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, datblygu gallu arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg i gynllunio'n strategol ar gyfer cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg.

Mae arweinyddiaeth ac ymrwymiad yn allweddol i'r broses gyfan. Mae angen i'r arweinyddiaeth hon ddod o gyfeiriad corff llywodraethu'r ysgol, y pennaeth a'r tîm o uwch-reolwyr, a rhaid i'r awdurdod lleol gefnogi'r arweinyddiaeth hon drwy gydol taith yr ysgol. Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn awyddus i weithio'n galed i sicrhau bod rhieni yn gefnogol, yn frwdfrydig ac yn deall y broses yn llawn o'r dechrau.

3.8 Cynllunio a datblygu'r gweithlu

Bydd angen i gyrff llywodraethu gynllunio eu gweithlu er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n llwyddiannus. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amcanion a bennir yn CSCA eu hawdurdod lleol i gynyddu nifer y staff addysgu sydd â'r gallu i addysgu Cymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i ysgolion sy'n dymuno symud i'r categori nesaf gael nifer craidd o staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i ysgolion gynllunio i gynyddu'r ddarpariaeth dros amser, a fydd hefyd yn golygu cynllunio datblygiad y gweithlu ar yr un pryd. Byddem yn disgwyl i hyn ffurfio rhan o gynllun datblygu'r ysgol.

Dylid defnyddio'r data a gesglir drwy'r Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion ar sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i lywio'r gwaith hwn o gynllunio'r gweithlu ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu ranbarthol. Gall hyn arwain at yr ysgol yn penodi aelodau newydd o staff sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a / neu gefnogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg er mwyn addysgu drwy gyfrwng y ddwy iaith. Mae'r olaf yn unol â'r

Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob athro sy'n ymarfer "chwilio'n weithredol am gyfleoedd i gymhwyso ac ymestyn eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddefnyddio'r Gymraeg" drwy gydol eu gyrfaoedd.

Rydym yn annog ysgolion i ddefnyddio'r dysgu proffesiynol sydd ar gael i ymarferwyr. Gall hyn gynnwys Cynllun Sabothol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu a gwella sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a gwella eu hyder i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir dysgu proffesiynol Cymraeg hefyd gan y consortia rhanbarthol, ac mae rhywfaint o ddarpariaeth ar gael i athrawon drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Gallai ysgolion uwchradd hefyd ddefnyddio prosiect E-sgol Llywodraeth Cymru, sy'n defnyddio technoleg fideo i gysylltu ystafelloedd dosbarth fel y gall dysgwyr o un ysgol ymuno â dosbarthiadau mewn ysgolion eraill o bell, gan alluogi myfyrwyr i fanteisio ar amrywiaeth ehangach o bynciau ar lefel TGAU a Safon Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

3.9 Symud ymlaen

Bwriad y canllawiau hyn yw cynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i symud o'r hen system ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'r un newydd. Mae'n bwysig cofio, fodd bynnag, nad all y polisi hwn lwyddo ar ei ben ei hun. Mae nifer o bolisiau eraill eisoes yn cael eu datblygu a fydd â rhan i'w chwarae yn ei lwyddiant.

Bydd y Canllawiau Gwella Ysgolion diwygiedig, sef ein fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. I gefnogi'r gwaith hwn, yn ddiweddar lanswyd cynllun peilot yr adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella ar Hwb, y disgwylir ei gyflwyno'n llawn o fis Ebrill 2022. Datblygwyd yr adnodd cenedlaethol mewn partneriaeth ag ysgolion, Estyn, consortia ac awdurdodau lleol i ddarparu canllawiau ymarferol i helpu ysgolion i ddefnyddio ystod o ddulliau hunan arfarnu a gwella.

Ochr yn ochr â'n gwaith yn y maes hwn, rydym wedi bod yn gweithio gydag athrawon a phartneriaid i ddatblygu Fframwaith ar gyfer y Gymraeg a deunyddiau ategol mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg i gefnogi'r cynnydd a ddisgrifir ym Maes Dysgu a Phrofiad y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Bydd hyn yn cyd-fynd yn agos â'r Fframwaith Llythrennedd sydd ar gael ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg a'r Saesneg mewn lleoliadau ac ysgolion cyfrwng Saesneg, y disgrifiadau dysgu ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion/leoliadau cyfrwng Saesneg a Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer leithoedd.

Mae gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu cynllun gweithlu 10 mlynedd i'n helpu i ymestyn capasiti gweithlu cyfrwng Cymraeg yn y sector hwn. Bydd yn cael ei gyhoeddi yn 2022.

Mae gan bob un o'r datblygiadau hyn rôl bwysig i'w chwarae wrth i ni fynd ati i weithredu'r polisi hwn. Byddwn ni'n sicrhau aliniad rhwng y ffrydiau gwaith hyn ac yn diweddarau'r canllaw hwn yn ôl yr angen.